# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 1 Medi 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

5 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dymuno cymryd rhan yn y Broses Bologna? (WAQ52418)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae'r cymorth i fyfyrwyr ar gyfer yr amrywiol fentrau Bologna yn amrywio o SAU i SAU, ond mae'n cynnwys rhoi'r Atodiad Diploma, sy'n caniatáu cyfleoedd ar gyfer symudedd a Graddau Cyfun ac ati. Mae'r Atodiad Diploma yn helpu i wella cyflogadwyedd myfyrwyr ar draws yr UE.

Mae arolwg ymgysylltu diweddaraf Uned Ewrop gyda Phroses Bologna i Gymru yn cadarnhau fod dros hanner SAU Cymru yn cyhoeddi dogfen Atodiad Diploma. Mae'r gweddill yn bwriadu ei weithredu erbyn 2009. Mae gan Gymru hefyd system o gredydau—Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, sydd ar hyn o bryd yn destun arolwg.

Fel rhan o raglen bresennol Erasmus Mundus (2004-2008) mae SAU Cymru wedi bod yn bartneriad mewn 4 cwrs Meistr Erasmus Mundus. Mae sawl SAU yn darparu dosbarthiadau tiwtora iaith dwys naill ai ar ddechrau gradd neu mewn ysgol haf cyn prifysgol er mwyn rhoi hyder i'r myfyrwyr i allu ymgymryd â rhaglen astudio Erasmus neu leoliad gwaith dramor.

Mae CCAUC yn darparu cefnogaeth ar lefel sector/SAU, yn cynnwys iawndal i SAU am hepgoriad llawn i fyfyrwyr Erasmus sy'n ymgymryd â blwyddyn academaidd lawn dramor, ac mae Cyngor y CCAUC newydd gytuno i gynyddu'r gyllideb ar gyfer hyn.

Mae'r Cyngor Cyllido hefyd yn cyd-ariannu WHEB, a ffurfiwyd yn rhannol i alluogi'r sector i ymgysylltu yn fwy llawn â blaenoriaethau Ewropeaidd, gan gynnwys Proses Bologna. Trefnodd CCAUC gynhadledd aml-asiantaeth fis Tachwedd diwethaf ar Gystadleurwydd AU a Phroses Bologna, ac fe gynhaliodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gynhadledd ym mis Chwefror 2008 ar "Y brifysgol ryngwladol: Safbwynt o Gymru", a oedd yn cynnwys ffocysu ar ryngwladoli'r cwricwlwm.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o a) myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a b) myfyrwyr mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sydd wedi cymryd rhan yn y Broses Bologna ar gyfer pob blwyddyn ers ei dechrau. (WAQ52419)

**Jane Hutt:** Mae'n anodd mesur hyn yn ei gyfanrwydd gan fod y Broses Bologna yn cynnwys 10 llinell weithredu. Mae fy swyddogion yn casglu ystadegau ar y nifer o fyfyrwyr Erasmus sydd wedi manteisio ar gyfnod o astudio dramor, a byddaf yn rhoi'r ffigurau i chi cyn gynted ag y byddant ar gael. Rwy'n rhagweld y bydd hyn erbyn diwedd wythnos nesaf.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o fyfyrwyr sy'n astudio cwrs gradd mewn ieithoedd tramor modern mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ac a fyddai'r Gweinidog yn darparu dadansoddiad ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ52420)

**Jane Hutt:** Dangosir nifer y cofrestriadau israddedig ar gyrsiau sy'n cael eu dosbarthu fel pynciau ieithoedd tramor modern mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn y tabl isod, ar gyfer pob blwyddyn ers 1999/2000

Cofrestriadau israddedig ieithoedd tramor modern mewn SAU yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| 1999/2000 (b) | 2,405 |

| | |
|---|---|
| 2000/01 | 2,240 |
| 2001/02 | 1,900 |
| 2002/03 | 3,640 |
| 2003/04 | 3,530 |
| 2004/05 | 3,645 |
| 2005/06 | 4,270 |
| 2006/07 | 4,335 |

Ffynhonnell: HESA
(a) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.
Mae'r ffigurau ar gyfer yr holl fyfyrwyr a gofrestrodd ar gyrsiau drwy'r flwyddyn lle dosberthir o leiaf un pwnc fel iaith dramor fodern.
Bydd y ffigurau yma yn wahanol i'r rheiny a gyhoeddwyd mewn mannau eraill sy'n seiliedig ar Gyfwerth Person Llawn (FPEs)
Newidiodd y fethodoleg dosbarthu pwnc yn 2002/2003. Nid oes modd felly i gymharu'r ffigurau o 2002/03 ymlaen yn fanwl gyda'r blynyddoedd cynharaf.
(b) Fel ar 1af Rhagfyr 1999.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud ar gyfer diwallu ei tharged 2010 ar gyfer cymryd rhan yn y Broses Bologna? (WAQ52422)

**Jane Hutt:** Mae Proses Bologna wedi llwyddo i gyflwyno newid sylweddol ers y cytunwyd arno'n wreiddiol yn 1999. Bu diwygiadau sylweddol o ran strwythur cyrsiau addysg uwch a rhaglenni astudio (ar lefelau Baglor, Meistr a Doethuriaeth) ac mae SAU Cymru yn gweithio tuag at raddau cyfun gyda gwledydd partner. Er enghraifft, mae Prifysgol Abertawe yn negodi gyda Llysgenhadaeth Ffrainc er mwyn datblygu PhD ar y cyd â sawl prifysgol yn Ffrainc. Mae Abertawe hefyd yn ystyried arbrofi gyda rhaglen ddwy haen Meistr Rhyngwladol mewn dwy ysgol. Ystyriaf fod cystadleuaeth rhwng sefydliadau yn bŵer positif, ond mae cyd-weithrediad yn rhan annatod o geisio sicrhau canlyniadau cryfach.

Er mwyn bwrw ymlaen gyda gwaith Proses Bologna, bydd yn rhaid i sefydliadau weithio'n fwy effeithiol gyda busnesau a chyflogwyr.

Mae'n hollbwysig bod polisïau dysgu gydol oes yn ymdoddi'n ddi-drafferth ar draws addysg bellach ac addysg uwch. Rhaid i ehangu mynediad ymddangos yn amlwg. Mae fy swyddogion yn APADGOS yn gweithio i sicrhau bod eu gwaith yn cynorthwyo SAU i gymryd mantais lawn o Broses Bologna. Felly mae swyddogion o Grŵp Gwella Cymwysterau a Cwricwlwm Dysgu yr Adran yn adolygu Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru i sicrhau ei fod yn gyson â gweddill Ewrop.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio'r prawf Gama Interfferon ar gyfer TB mewn gwartheg nawr ac yn y dyfodol? (WAQ52414)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Ers Hydref 2006 mae profion gwaed Gama Interfferon wedi cael eu defnyddio ar y cyd â'r prawf croen tuberculin mewn amgylchiadau arbennig er mwyn gwella'r broses o ganfod gwartheg wedi'u heintio mewn buchesi gyda phroblemau TB buchol parhaus neu gyda niferoedd mawr o achosion o'r clefyd. Caiff y defnydd o Brofion Gama Interfferon ei fonitro ac adroddir arno yn fisol. Rhwng 1 Ionawr a 30 Mehefin eleni cafodd 2252 o anifeiliaid, mewn cyfanswm o 261 o fuchesi yng Nghymru, eu profi gan ddefnyddio'r prawf Gama Interfferon.

Fel y cyhoeddwyd ar 8 Ebrill 2008 bydd y Prawf Gamma Interfferon yn parhau i gael ei ddefnyddio fel rhan o'r Rhaglen Ddifa TB buchol. Mae'r defnydd o'r prawf yn destun adolygiad ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghŷd â Llywodraeth yr Alban a DEFRA a byddant yn adrodd yn ôl yn y dyfodol agos.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut a phryd y caiff y cynlluniau i ddileu TB eu gwerthuso? (WAQ52415)

Elin Jones (Gweinidog dros Faterion Gwledig): Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad ar yr 8 Ebrill, bydd ein dull o barhau'r broses o ddifa TB buchol yn un gynhwysfawr. Fe fydd nifer o ddangosyddion yn cael eu defnyddio i werthuso cynnydd ar draws y rhaglen. Bydd y rhain yn cael eu monitro yn gyson gan Fwrdd y Rhaglen Ddifa TB. Rydw i eisoes wedi ymgymryd â'r broses o gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad, sy'n gyfle pellach i graffu a thrafod.

Wrth i'r Rhaglen Ddifa TB ddatblygu dros gyfnod o amser bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud a Chynllun Gweithredu, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein, yn cael ei ddatblygu. Byddwn hefyd yn adrodd arno'n flynyddol. Bydd gwerthusiad y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Ganolfan i Berthnasau Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas (BRASS—Prifysgol Caerdydd) er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei werthuso'n effeithiol.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dagiau electronig ar gyfer ceffylau yn y Canolbarth o ran y gost a'r effaith ar y perchnogion? (WAQ52416)

**Elin Jones:** Mae Rheoliad newydd Ewropeaidd (Rhif. 504/2008) sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth Pasbort Ceffylau bresennol, yn ei gwneud yn ofynnol i ficrosglodynnu pob ebol a anwyd neu a gofrestrwyd ar ôl 1 Gorffennaf 2009. Bydd yn ofynnol i fridwyr ficrosglodynnu eu hebolion ar yr un pryd ag y gwneir cais am basbort, ni fydd y gofyniad yn ôl-weithredol o ran ceffylau hŷn. Practisau Milfeddygon unigol fydd yn gyfrifol am osod y taliadau am ficrosglodynnu.

Mae microsglodynnau yn gyswllt hollbwysig rhwng y ceffyl a'i basbort ac hefyd yn cryfhau'r gofynion adnabod ceffylau presennol.Gallai proses adnabod serwm ceffylau mor unigryw â hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rheoli heintiau ac at ddibenion gwyliadwraeth yn ogystal â dod o hyd i geffylau coll neu rai wedi'u dwyn.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori â'r diwydiant ceffylau ynglŷn â gweithredu'r gofynion newydd.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dagiau electronig ar gyfer defaid yn y Canolbarth? (WAQ52417)

**Elin Jones:** Adnabod Electronig (EID) a chofnodi unigol yw rhannau olaf Rheoliad y Cyngor (EU) 21/2004 sy'n cyflwyno system ar draws Ewrop ar gyfer adnabod ac olrhain defaid a geifr.

Mae'r Rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob oen sy'n cael ei eni ar neu ar ôl 31 Rhagfyr 2009 a lle ceir bwriad i'w gadw am fwy na 12 mis gael ei adnabod yn electronig. Cafwyd consesiwn terfynol ym Mehefin 2008 er mwyn cyflwyno'r gofynion i gofnodi'n unigol fesul cam yn y DU.

Mae cynllun yng Nghymru a gyflwynwyd yn 2007, yn dechrau dangos tystiolaeth o'r modd mwyaf effeithiol y gellir cyflwyno EID mewn amrywiaeth o systemau ffermio yng Nghymru. Byddaf yn ymweld âg un o'r ffermydd peilot ym mis Medi ac yn cwrdd â'r grŵp diwydiant sy'n fy nghynghori ar y modd gorau i weithredu'r Rheoliad yng Nghymru.

Bwriedir cynnal ymgynghoriad llawn ar gyfer 2009.

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth yw cost flynyddol y safle (les/rhent a chostau rhedeg) a feddiannir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar faes sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd? (WAQ52423)

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Am sawl diwrnod y caiff y safle ar faes sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd ei feddiannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i ddefnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ52424)

**Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad (William Graham):** Llywodraeth Cynulliad Cymru yw perchennog yr eiddo rydych yn cyfeirio ato.

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn defnyddio Pafiliwn Llywodraeth Cynulliad Cymru am saith niwrnod yn ystod Sioe Frenhinol Cymru. Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn talu unrhyw gostau prydlesu / rhentu na chostau rhedeg y Pafiliwn.